# Proffil y Swydd: Swyddog Cyswllt Ffermio, Cymru

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Swyddog Cyswllt Ffermio, Cymru |
| Diwrnodau Gwaith | 3 diwrnod yr wythnos (Rydym yn foldon ystyried 3 diwrnod yr wythnos) |
| Hyd y Cytundeb | Mis Mawrth 2026 |
| Cyflog | £29,000 y flwyddyn (Pro rata £23,200 yn seiliedig ar 4 diwrnod yr wythnos) |
| Man Gwaith | Gweithio gartref yng Nghymru / Swyddfa Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn, Y Trallwng (a theithio ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau ac ymweliadau fferm) |
| Dyddiad Cau | Dydd Iau Gorffennaf 11fed |
| Dyddiad y Cyfweliad | Wythnos yn dilyn Gorffennaf 15fed |
| E-bostiwch geisiadau wedi'u cwblhau i | info@nffn.org.uk |

**Datganiad:**

Bydd y Swyddog Cyswllt Ffermio yn gyfrifol am greu'r ffocws i gyflawni Prosiect Cymunedau Glaswelltir Sir Drefaldwyn yn llwyddiannus. Drwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, staff a gwirfoddolwyr, bydd y Swyddog Cyswllt Ffermio yn gyfrifol am ymgysylltu â ffermwyr i wella cyflwr a gwydnwch glaswelltir niwtral o fewn ardal y prosiect. Byddant yn gweithio gyda'r gymuned leol i godi ymwybyddiaeth o'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth ac yn annog gweithredu priodol. Bydd y Swyddog wedi'i leoli o fewn neu ger Sir Drefaldwyn a bydd yn gweithio ar draws talgylch y prosiect. Bydd y Swyddog hefyd yn helpu i gyflawni blaenoriaethau ehangach y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur ledled Cymru.

## Y Prif Ddyletswyddau

- Ymgysylltu â'r gymuned ffermio i godi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad posibl y gall ffermio sy'n gyfeillgar i natur ei wneud i liniaru ac ymaddasu i newid hinsawdd, yn ogystal â chyfrannu at fusnesau ffermio proffidiol.
- Cefnogi ac ysbrydoli ffermwyr a thirfeddianwyr i greu mwy o lefydd ar gyfer bywyd gwyllt ac i'w cysylltu â'r hyn sydd yno eisoes, a hynny o safbwynt cynefinoedd glaswelltir a'r rhywogaethau sy'n dibynnu neu'n cael eu cynnal ganddynt.
- Gweithio gyda staff i drefnu a chefnogi darparu hyfforddiant ac arolygon i dirfeddianwyr.
- Creu cyfleoedd ar gyfer dysgu ac arloesi rhwng cyfoedion yn y gymuned ffermio.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ffermwyr a'r cyhoedd am ffermio sy'n gyfeillgar i natur drwy greu cyfleoedd difyr i rannu gwybodaeth.

- Gweithio lle bo angen gyda chontractwyr i gynorthwyo ffermwyr i wneud gwaith i wella eu tir ar gyfer natur.

- Cynorthwyo i gynhyrchu cynnwys cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu o safon.

- Cynorthwyo gyda chynhyrchu adroddiadau a hawliadau prosiect i sicrhau eu bod yn cael eu creu'n brydlon ac yn gywir.

- Cynorthwyo gyda rheoli cyllideb y prosiect a sicrhau bod unrhyw ofynion y cyllidwr yn cael eu bodloni.

- Cefnogi Swyddog Cyswllt Ffermio dan Hyfforddiant i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ymgysylltu â'r gymuned ffermio i weithio tuag at arferion ffermio cynaliadwy.

**Cysylltiadau a Pherthnasoedd Gwaith Allweddol**

- Rheolwr NFFN Cymru
- Sefydliadau sy'n bartneriaid yn y Prosiect - yn arbennig Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn
- Ffermwyr a rheolwyr tir
- Cadeirydd ac Is-Gadeirydd NFFN Cymru
- Tîm Gweithrediadau NFFN y DU
- Tîm Cyfathrebu NFFN

**Cymwysterau Hanfodol**

1. O leiaf 3 blynedd o brofiad sy'n berthnasol i'r rôl neu o leiaf 5 mlynedd o brofiad yn gweithio yn y sector amaethyddiaeth
2. Trwydded yrru lawn

**Sgiliau Hanfodol**

1. Dealltwriaeth dda o ffermio a materion amaethyddol ehangach yng Nghymru
2. Dealltwriaeth dda o arferion ffermio sy'n gyfeillgar i natur
3. Sgiliau trefnu digwyddiadau
4. Profiad o ymgysylltu a magu perthynas dda ag ystod eang o randdeiliaid allanol ar bob lefel
5. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol. Person hawddgar ag agwedd broffesiynol sy'n gallu dwyn perswâd ar eraill
6. Y gallu i reoli llwyth gwaith amrywiol yn effeithlon ac yn effeithiol
7. Sgiliau rheoli prosiect cadarn
8. Y gallu i fod yn hyblyg ac i weithio ar eich liwt eich hun ac i amserlenni tynn

**Cymwysterau, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad dymunol**

1. Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar
2. Dealltwriaeth dda o bolisi amaethyddol yng Nghymru
3. Profiad o waith ymgysylltu â'r cyhoedd e.e. presenoldeb mewn sioeau gwledig
4. Profiad o gynnal digwyddiadau a gweithgareddau ar ffermydd

## Ffactorau eraill

- Yr oriau gwaith arferol yw 9yb tan a 5yp gydag 1 awr o egwyl ginio - er mae'n bosib bod yn hyblyg gyda'r trefniant hwn.
- O bryd i'w gilydd bydd angen gweithio gyda'r hwyr ac ar y penwythnos. Ystyrir y rhain yn rhan annatod o gyfrifoldebau deiliad y swydd a bydd amser mewn llaw yn lle hynny ar gael.
- Mae parodrwydd i weithio yn yr awyr agored, weithiau mewn tywydd garw, yn hanfodol.
- O bryd i'w gilydd bydd angen teithio ar draws talgylch y prosiect, ac yn achlysurol ledled Cymru, sy'n golygu mae angen trwydded yrru lawn.
- Mae'r swydd yn gofyn am ddefnyddio cyfrifiaduron ar gyfer trin data a phrosesu geiriau.